**Fforwm Cymunedau Ffydd**
**Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Hydref 2016**
**Ystafell Ddigwyddiadau, Parc Cathays**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Prif Weinidog Cymru | Cadeirydd |
| Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant | Dirprwy Gadeirydd |
| Aled Edwards | Eglwysi Ynghyd yng Nghymru |
| Gethin Rhys | Eglwysi Ynghyd yng Nghymru |
| Philip Manghan | (Cynrychiolydd) Archesgob Caerdydd |
| Jim Stewart | Cynghrair Efengylaidd Cymru |
| Elfed Godding | Cynghrair Efengylaidd Cymru |
| Nordzin Pamo | Cyngor Bwdaidd Cymru |
| Christine Abbas | Cyngor Bahá'í Cymru |
| Saleem Kidwai | Cyngor Mwslimiaid Cymru |

**Swyddogion yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Paul Dear | Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant |
| Andrea Adams | Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant |
| Steve Chapman | Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Archesgob Cymru | Yr Eglwys yng Nghymru |
| Ahmed Darwish | Cyngor Mwslimiaid Cymru |
| Naran Patel | Cyngor Hindwiaid Cymru |
| Nirmala Pisavadia | Cyngor Hindwiaid Cymru |
| Peter Richards | Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru |
| Stanley Soffa | Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru |
| Lisa Gerson | Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru |
| Viv Bartlett | Cyngor Bahá'í Cymru |
| Surinder Channa | Cymdeithas Ddiwylliannol Sikhiaid De Cymru |

**Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawodd Prif Weinidog Cymru ("*Y Prif Weinidog*") bawb i'r cyfarfod. Gohiriwyd y cyfarfod a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer 2 Mehefin oherwydd ei fod mor agos at etholiadau'r Cynulliad.

**Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Anfonwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol at aelodau cyn y cyfarfod hwn. Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

**Pwyntiau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf**

Anfonwyd crynodeb o'r pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf, at aelodau cyn y cyfarfod hwn. Nodwyd y rhain.

**Materion sy'n codi**

Crefyddau nad ydynt wedi'u cynrychioli. Bydd Cyngor Rhyng-ffydd Cymru yn penodi Cadeirydd newydd cyn bo hir. Cadarnhaodd Aled y bydd y Cyngor yn cwrdd i drafod

y mater hwn cyn gynted ag y byddant wedi penodi Cadeirydd newydd. Bydd y Cyngor yn gwneud argymhellion i'r Fforwm ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**Eitem 1 ar yr Agenda – Rhyddid pobl i symud yn dilyn Refferendwm yr UE**

Dywedodd y Prif Weinidog nad yw am weld mesurau rheoli'n cael eu cyflwyno a fyddai'n achosi niwed i economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Nid yw unrhyw fath o hiliaeth na rhagfarn yn dderbyniol yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod Cymru'n parhau'n wlad sy'n eang ei gorwelion, gydag agwedd ryngwladol sydd o blaid busnes, a bod ein hymrwymiad i degwch a chyfleoedd i bawb heb leihau.

Dylai dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd gael aros yma ar ôl i'r DU adael yr UE. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae dinasyddion o wledydd eraill sy'n byw yng Nghymru yn ei wneud i'n heconomi, ein gwasanaethau cyhoeddus a'n cymunedau. Dylid caniatáu i weithwyr symud yn rhydd, a rhaid dod o hyd i ffordd synhwyrol ymlaen.

Dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn falch bod cymunedau ffydd yn parhau i fod yn flaengar mewn ymgyrchoedd cyhoeddus i groesawu ffoaduriaid.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth:

- Mae recriwtio o fewn y farchnad ryngwladol yn hanfodol i'r GIG.
- Fe wnaeth cynrychiolwyr y cymunedau ffydd gwrdd â'r Arglwydd Bourne yn ddiweddar i godi eu pryderon ynghylch yr iaith annynol a ddefnyddir gan rai gwleidyddion mewn cysylltiad â ffoaduriaid, megis gwiriadau deintyddol a phrofion pelydr-X i benderfynu oedran.
- Gall cymunedau ffydd helpu i addysgu pobl i gymysgu â diwylliannau eraill. Bydd y Cyngor Rhyng-ffydd yn datblygu'r gwaith hwn ymhellach.
- Mae Prif Weinidog y DU yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar faterion megis mewnfudo a'r cynllun i adsefydlu ffoaduriaid.
- Mae'r ffin yng Ngogledd Iwerddon yn fater cymhleth iawn yn sgil canlyniad refferendwm yr UE.

**Eitem 2 ar yr Agenda – Y Ddeddf Hawliau Dynol: Trafodaeth**

Dywedodd y Prif Weinidog fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, Elizabeth Truss wedi cadarnhau yn ddiweddar fod Llywodraeth y DU yn dal i fwriadu cyflwyno Deddf Hawliau Prydeinig i ddisodli'r Ddeddf Hawliau Dynol. Fe wnaeth hi gadarnhau na fyddai'r cynigion yn cynnwys gadael y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae dros flwyddyn wedi mynd heibio ers i Lywodraeth y DU ddatgan y byddai'n cyhoeddi ymgynghoriad ar Ddeddf Hawliau Prydeinig. Nid yw wedi cyhoeddi'r ymgynghoriad eto, na darparu unrhyw wybodaeth am yr hyn y byddai Deddf Hawliau Prydeinig yn ei gynnwys. Mae'n amhosibl nodi'r effaith bosibl a allai ddeillio o Ddeddf Hawliau Prydeinig heb weld union natur y newidiadau hyn. Gallai hyd yn oed newidiadau bach i'r Ddeddf Hawliau Dynol godi materion cyfreithiol cymhleth.

Bydd rhaid craffu'n ofalus ar unrhyw ddiwygiadau. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl cael cyfrannu at y drafodaeth ar y materion hyn pan fydd cynigion mwy pendant yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth y DU. Byddwn i gyd yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau nad yw'r hawliau mae pobl Cymru yn eu mwynhau ar hyn o bryd yn cael eu gwanhau gan unrhyw gynigion o gyfeiriad Llywodraeth y DU.

Mae angen teilwra unrhyw newidiadau ar gyfer rhannau gwahanol y DU; er enghraifft, mae angen i unrhyw newidiadau ystyried yr iaith Gymraeg.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant fod cyfle i wella'r Ddeddf Hawliau Dynol â phwerau datganoledig. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi lansio'r ymgynghoriad ar gydnerthedd cymunedol i ystyried y mater hwn ymhellach. Mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio ar gyfer y tymor hir er mwyn helpu ein cymunedau i weithio gyda'i gilydd. Croesawodd gyfraniad cymunedau ffydd i'r broses ymgynghori.

Mae cynrychiolwyr Cynghrair Efengylaidd Cymru a Chyngor Mwslimiaid Cymru yn cydweithio i ddatblygu ffyrdd creadigol fel y gall pobl fynegi rhyddid crefyddol: y rhyddid i gael yr hawl i gredu neu beidio.

**Eitem 3 ar yr Agenda – Troseddau Casineb**

Dywedodd y Prif Weinidog fod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer Troseddau Casineb yn fforwm allweddol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru o ran Troseddau Casineb. Mae'n dod â'r pedwar heddlu ynghyd, yn ogystal ag asiantaethau'r trydydd sector a phartneriaid allweddol eraill megis Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae gwaith y Bwrdd yn cynnwys cydlynu ein dull o weithredu ar y cyd ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, er mwyn sicrhau bod cymunedau ledled Cymru yn cael y negeseuon allweddol.

Cyflwynodd y Prif Weinidog Paul Dear, Pennaeth y Tîm Cydraddoldeb i'r Fforwm, er mwyn iddo roi'r newyddion diweddaraf ynghylch gwaith Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer Troseddau Casineb.

Dywedodd Paul fod cynrychiolwyr y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer Troseddau Casineb, yn ogystal ag aelodau allweddol eraill. Mae hyn yn sicrhau cysondeb a dull partneriaeth wrth ddatblygu gwaith ar draws meysydd nad ydynt wedi'u datganoli.

Yn ystod cyfarfod diwethaf y Bwrdd yn gynharach ym mis Medi, rhoddwyd cyflwyniad pwerus gan Uzo Iwobi o Gyngor Hil Cymru ar y cynnydd mewn troseddau casineb sy'n ymwneud â hiliaeth, yn dilyn Refferendwm yr UE. Fe wnaeth Uzo dynnu sylw at bryderon go iawn sydd gan gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a rhoddodd enghreifftiau go iawn o droseddau casineb sy'n ymwneud â hiliaeth a'r effaith y maent yn ei chael ar y sawl sy'n dioddef a'u teuluoedd.

Rydym yn gwybod bod cynnydd mewn troseddau casineb, yn enwedig rhai a oedd yn ymwneud â hiliaeth, yn dilyn y Refferendwm – cynnydd o 72% mewn

atgyfeiriadau i'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer rhoi Cymorth ac Adrodd am Droseddau Casineb, o'i gymharu ag atgyfeiriadau ym mis Gorffennaf 2015. Hefyd, roedd y ffigur yn dal i gynyddu ym mis Awst, sef 62% o'i gymharu â mis Awst 2015.

Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod negeseuon clir ynghylch pa mor annerbyniol yw hiliaeth yn cael eu gwrthbwyso gan gydnabyddiaeth gynyddol o'r broblem hon, a'r anogaeth bendant i'r sawl sy'n dioddef o ran pwysigrwydd hysbysu'r Heddlu am y troseddau hyn. Mae llawer o waith yn cael ei wneud gan yr Heddluoedd, Llywodraeth Cymru a Chymorth i Ddioddefwyr i annog pobl i adrodd troseddau wrth yr Heddlu, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol.

Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb – Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddyrannu cyllid i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu er mwyn codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â chymunedau ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar herio agweddau ac ymddygiadau sylfaenol. Cynhaliwyd llawer o weithgareddau a digwyddiadau a byddwn yn darparu adroddiad ar hyn maes o law.

Cynhaliwyd dadl gan Ysgrifennydd y Cabinet yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos hon – “Mynd i'r afael â throseddau casineb – y cynnydd a'r her”. Roedd yn gyfle i dynnu sylw at y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â throseddau casineb yng Nghymru ac wrth fwrw ymlaen â'r camau gweithredu yn ein Fframwaith Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb. Fe wnaeth ddarparu cyfle hefyd i dynnu sylw at rai o'r heriau, yn enwedig yn sgil digwyddiadau diweddar.

## Ystadegau Troseddau Casineb 2015-16 - Trosolwg

Cafodd Ystadegau Troseddau Casineb ar gyfer Cymru a Lloegr eu rhyddhau gan y Swyddfa Gartref ddydd Iau 13 Hydref 2016, sy'n dangos cynnydd o 6% mewn troseddau casineb a gofnodwyd ledled Cymru o'i gymharu â 2014-15. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o 19% ar draws Cymru a Lloegr. Cofnodwyd 2,405 o droseddau casineb ar draws pedair ardal yr Heddlu yng Nghymru, ac o'r troseddau hyn:

- roedd 1,747 (73%) ohonynt yn droseddau casineb a oedd yn ymwneud â hiliaeth;
- roedd 372 (15%) ohonynt yn droseddau casineb a oedd yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol;
- roedd 119 (5%) ohonynt yn droseddau casineb a oedd yn ymwneud â chrefydd;
- roedd 244 (10%) ohonynt yn droseddau casineb a oedd yn ymwneud ag anabledd; ac
- roedd 35 (1%) ohonynt yn droseddau casineb a oedd yn ymwneud â phobl drawsryweddol.

Mae'n bosibl y gall fod mwy nag un sbardun y tu ôl i un drosedd gasineb, a dyna pam y mae cyfanswm y ffigurau uchod yn fwy na 2,405 a 100 y cant.

Mae cynnydd o ran pedair o'r pum nodwedd warchodedig a gofnodwyd, o'i gymharu â 2014-15, sy'n cynnwys:

- cynnydd o 4% (1,677 i 1,747) mewn troseddau casineb a oedd yn ymwneud â hiliaeth;
- cynnydd o 6% (351 i 372) mewn troseddau casineb a oedd yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol;
- cynnydd o 42% (84 i 119) mewn troseddau casineb a oedd yn ymwneud â chrefydd;
- cynnydd o 21% (202 i 244) mewn troseddau casineb a oedd yn ymwneud ag anabledd; a
- gostyngiad o 8% (38 i 35) mewn troseddau casineb a oedd yn ymwneud â phobl drawsryweddol.

Gwelwyd cynnydd yn nifer y troseddau a gofnodwyd ar draws dwy o bedair ardal yr Heddlu:

- Dyfed Powys – 114 o droseddau casineb (cynnydd o 15% ers 2014-15);
- Gwent – 213 o droseddau casineb (gostyngiad o 20% ers 2014-15);
- Gogledd Cymru – 385 o droseddau casineb (gostyngiad o 2% ers 2014-15); a
- De Cymru – 1,693 o droseddau casineb (cynnydd o 13% ers 2014-15).

Rhwng 2011-12 a 2015-16, mae troseddau casineb a gofnodwyd gan Heddluoedd yng Nghymru wedi cynyddu 33%, o 1,809 i 2,405.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth:
Mae pobl drawsryweddol o'r farn nad yw'n werth iddynt hysbysu'r Heddlu am droseddau casineb.
Mae Cyngor Mwslimiaid Cymru wedi creu ffurflen adrodd newydd sydd wedi'i chymeradwyo gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer Heddlu De Cymru. Mae'r ffurflen newydd yn cael ei chylchredeg ym Mosgiau Caerdydd.
Mae Mwslimiaid yn pryderu y bydd cysylltiadau rhwng cymunedau yn dioddef os ydynt yn hysbysu'r Heddlu am droseddau.
Mae angen i bobl weld bod hysbysu'r Heddlu am droseddau yn arwain at ganlyniadau – mae erlyniadau yn ffordd dda o atal troseddau eraill.
Mae angen i'r Heddlu recriwtio mwy o bobl o blith pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
Mae elfen o anoddefgarwch tuag at gymunedau Cymraeg.
Mae ofn ar bobl – mae'r Wasg yn bwydo'r ofn hwnnw.
Mae Facebook, Twitter a chyfryngau cymdeithasol eraill yn mynegi ofn pobl.
'Anghydraddoldebau' yw'r thema ar gyfer digwyddiad yr Urdd yn 2017.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod angen i ni ddeall y broses adrodd – mae angen gwybod pam mae'r ffigurau'n cynyddu a chanolbwyntio ar rifau go iawn yn ogystal â chanrannau. Mae wedi gofyn i swyddogion ystyried cyfathrebu ar y cyd ag asiantaethau eraill er mwyn codi proffil Troseddau Casineb, nid yn unig yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ond drwy gydol y flwyddyn. Nid yw rhyw yn destun trosedd casineb penodol; bydd Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi neges gref o blaid dim goddefgarwch wrth ddelio â throseddau casineb.

**Cam gweithredu:** Llywodraeth Cymru i gyhoeddi adroddiad am y digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 2016.

**Eitem 4 – Atal Caethwasiaeth Cymru – Steve Chapman, Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth, Llywodraeth Cymru**

Dywedodd y Prif Weinidog mai Cymru yw'r wlad gyntaf (a'r unig un) yn y DU i benodi Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth, a bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru ("*y Grŵp Arwain*"). Mae'r Grŵp Arwain yn darparu arweinyddiaeth strategol a chanllawiau ynghylch sut y dylem fynd i'r afael â chaethwasiaeth yng Nghymru ac i ddarparu'r cymorth gorau posibl ar gyfer y rhai sy'n goroesi caethwasiaeth. Mewn sawl modd, mae Cymru yn arwain y ffordd ar draws y DU o ran mynd i'r afael â chaethwasiaeth, drwy godi ymwybyddiaeth mewn ffordd sydd wedi'i strwythuro, yn ogystal â darparu hyfforddiant a sicrhau bod gan yr awdurdodau yr wybodaeth ddiweddaraf.

*[Fe wnaeth y Prif Weinidog ymddiheuro a gadael y cyfarfod bryd hynny; Ysgrifennydd y Cabinet a gadeiriodd weddill y cyfarfod.]*

Rhoddodd Steve Chapman, Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth Cymru, gyflwyniad ar waith y Grŵp Arwain. Mae'r Grŵp Arwain wedi creu a darparu cyrsiau hyfforddi er mwyn helpu pobl i adnabod arwyddion caethwasiaeth fodern a'i dioddefwyr. Mae dros 4,500 o bobl yn y gwasanaethau cyhoeddus wedi dilyn y cwrs, gan gynnwys yr Heddlu, erlynwyr a sefydliadau'r trydydd sector. Mae Grŵp Atal Caethwasiaeth y DU yn defnyddio'r deunyddiau hyfforddi fel rhan o'i ganllawiau arferion gorau. Nid yw'r awdurdodau yn cael eu hysbysu bob amser am achosion o gaethwasiaeth – ond erbyn hyn, mae'r mater wedi cael ei ddatgelu yng Nghymru yn sgil achosion a gafodd gryn sylw yn ddiweddar, sydd wedi arwain at erlyn a dedfrydu troseddwyr.

Yng Nghymru ar hyn o bryd, llafur gorfodol yw'r categori uchaf o gaethwasiaeth sydd wedi cael ei hysbysu i'r awdurdodau. Mae'r cyrsiau atal caethwasiaeth yn cael eu darparu yn rhad ac am ddim ledled Cymru drwy'r Grwpiau Atal Caethwasiaeth Rhanbarthol.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod hwn yn waith arloesol, ac mae'n croesawu'r cymorth parhaus gan gymunedau ffydd er mwyn amlygu'r drosedd hon.

**Cam gweithredu:** Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cysylltu ag aelodau i roi manylion y cyrsiau hyfforddi.

**Eitem 5 ar yr Agenda - Unrhyw Fater Arall**

Cyhoeddodd Archesgob Cymru, y Dr Barry Morgan, y byddai'n ymddeol ym mis Ionawr. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod ef a'r Prif Weinidog yn ddiolchgar iawn am gyngor a doethineb yr Archesgob ynghylch materion sy'n effeithio ar fywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru, a hefyd am ei ymrwymiad cadarn i hybu gwaith rhyng-ffydd ledled Cymru. Bydd y Prif Weinidog yn ysgrifennu at yr Archesgob i gyfleu ei ddymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol.

Hefyd, estynnodd Ysgrifennydd y Cabinet ei ddymuniadau gorau i'r Parchedig Alan Bayes, a ildiodd ei le fel Cadeirydd Cyngor Rhyng-ffydd Cymru ym mis Medi.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**
Cynhelir y cyfarfod yn yr Ystafell Ddigwyddiadau ar 3 Ebrill am 10:00 - 11:30am.